




Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Ymateb i'r cynnig ar ddyfodol llysoedd ynadon yng Ngwent: Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili

9 Gorffennaf 2015



# Swyddogol - Sensitif



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Ymateb i'r cynnig ar ddyfodol llysoedd ynadon yng Ngwent: Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili**

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd: [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)

## Swyddogol - Sensitif

## Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Cefndir	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Ymatebion i bwyntiau penodol – Llys Ynadon y Fenni	7
Ymatebion i bwyntiau penodol – Llys Ynadon Caerffili	12
Casgliad a'r camau nesaf	18
Egwyddorion ymgynghori	20
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	21
Atodiad B – Amseroedd teithio	23

---



## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Dyma'r ymateb i'r papur ymgynghori 'Cynnig ar ddyfodol llysoedd ynadon yng Ngwent: Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili', a gyhoeddwyd ar 9 Mehefin 2014.

Bydd yn ymdrin â:

- chefnidir y papur ymgynghori;
- crynodeb o'r ymatebion i'r papur ymgynghori;
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn y papur ymgynghori;
- y penderfyniad; a'r
- camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori ar gael o

**Uned Gefnogi Cymru  
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM  
2<sup>il</sup> Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro  
Caerdydd  
CF24 0RZ**

**Ffôn: 029 2046 7767**

**Ebost: [HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:HMCTSWalesConsultation@hmcts.gsi.gov.uk)**

Mae'r papur ymateb hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth: [www.gov.uk/moj](http://www.gov.uk/moj)

Mae fersiynau eraill o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar gais gan Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM ar 029 2046 7767.

### **Cwynion neu sylwadau**

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r broses ymgynghori, dylech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn y cyfeiriad uchod.

## Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Cynnig ar ddyfodol llysoedd ynadon yng Ngwent: Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili' ar 9 Mehefin 2014. Roedd y papur yn gofyn am sylwadau ar y cynnig i gau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili a throsglwyddo'r gwaith i lysoedd eraill yng Ngwent, yn bennaf Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân. Ni fydd angen uno meinciau oherwydd mai un Ardal Cyfiawnder Lleol yw Gwent.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 21 Gorffennaf 2014, ac mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion a'r camau nesaf.

Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith oedd yn rhan o'r ymgynghoriad er mwyn ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae copi ynghlwm o'r Asesiad o Effaith wedi'i ddiweddarau yn **Atodiad C**.

Mae crynodeb Cymraeg o'r papur ymateb hwn ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/cynnig-ar-ddyfodol-llysoedd-ynadon-yng-ngwent>.

Ceir rhestr o ymatebwyr yn **Atodiad A**.



## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y papur ymgynghori yn gwahodd ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

1. Pa sylwadau yr hoffech eu gwneud ynglŷn â'r cynnig i gau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili?
2. Disgrifiwch unrhyw effeithiau penodol y dylid eu hystyried a pham.
3. A fydd cau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili yn effeithio'n uniongyrchol arnoch chi? Os bydd, rhowch fanylion ychwanegol.

Aseswyd pob ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad. Roedd yn amlwg bod ymatebwyr yn codi pwyntiau o dan benawdau penodol, felly, cyflwynwyd y pwyntiau a godwyd, ac ymateb Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM iddynt, dan y themâu hyn yn y papur ymateb hwn.

Daeth cyfanswm o 31 o ymatebion i'r papur ymgynghori i law. O'r rhain roedd:

- tri gan aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- dau gan Aelodau Seneddol;
- 16 gan ynadon lleol;
- dau gan y farnwriaeth leol;
- dau gan staff Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM; a
- chwe ymateb gan unigolion, cyfreithwyr a phwyllgorau lleol.

O'r 31 o ymatebion, roedd pedwar yn cefnogi'r cynnig i gau Llys Ynadon y Fenni, roedd 25 yn gwrthwynebu a dau yn niwtral. O'r 31 o ymatebion, roedd pump yn cefnogi'r cynnig i gau Llys Ynadon Caerffili, roedd 24 yn gwrthwynebu a dau yn niwtral.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn yn codi materion yn ymwneud â theithio, gwariant blaenorol a mynediad at gyfiawnder lleol.

O'r ymatebion a oedd yn cefnogi'r cynnig, roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- Nid yw Llys Ynadon y Fenni wedi cael ei ddefnyddio'n ddiweddar, ac ni chafwyd unrhyw broblemau gyda defnyddwyr yn teithio i Gwambrân neu Gasnewydd yn ystod y cyfnod hwn;
- Mae cysylltiadau trafniadaeth da o Llys Ynadon Caerffili i Gasnewydd a Chwambrân, ac mae'n daith rwyddach i rai; ac
- Mae adeilad Llys Ynadon Caerffili mewn cyflwr gwael

O'r ymatebion a oedd yn gwrthwynebu cau'r llys, roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- mynediad at lysoedd lleol;
- amser a chostau teithio i'r rhai yng Ngogledd Gwent, yn enwedig Glynebwy, Cwm Rhymni ac Abertyleri;
- gwariant blaenorol ar gynnal adeiladau'r llys; a
- dim cynnig ar gyfer cau Llys Ynadon Cwmbrân

Mae'r rhain, a gweddill yr ymatebion a oedd yn codi pwyntiau penodol, yn cael eu hystyried yn y papur ymateb hwn.

Dadansoddwyd yr holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn llawn, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu fel a ganlyn:

- **Dylid cau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili, a throsglwyddo'r mwyafrif o'r llwyth gwaith i Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwmbrân.**

Yn dilyn yr ymateb, gwahoddir y Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) lleol i ymgynghori ar newidiadau posibl i ffiniau'r Ardal Cyfiawnder Lleol (LJA). Bydd hyn yn golygu bod y llwyth gwaith sy'n cael ei brosesu yn Llys Ynadon Caerffili nawr yn cael ei wrando yng Nghaerdydd, sydd ddim yn bosibl ar hyn o bryd o dan drefniadau'r Ardal Cyfiawnder Lleol presennol. Pe bai'r JBG yn penderfynu mynd ymlaen ag ymgynghoriad, os yw'n bosibl, byddai'r broses o gau Llys Ynadon Caerffili yn cael ei ohirio hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr ymgynghoriad.

## Ymatebion i bwyntiau penodol – Llys Ynadon y Fenni

### 1. Trafnidiaeth/Mynediad at Lysoedd Lleol

Roedd nifer o ymatebion, gan ynadon yn bennaf, yn cynnwys sylwadau ar y cynnydd o ran amser a chostau teithio, a fyddai'n codi o drosglwyddo llwyth gwaith Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili i'r ddau lys ynadon arall ar ôl yng Ngwent, sef Llys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwibrân.

“Nid ydynt yn ystyried yr effaith ar y bobl sy'n gorfod dod i'r llys, y dioddefwr a'r cyhuddedig, pan mae'n dod i drefniadau teithio...Mae cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus i'r Fenni yn wych o bob cwr o'r sir mewn car, ar fws a threnau, sy'n golygu bod mynediad da i'r llys hwn i'r cyhoedd. Hefyd, mae'r sawl sy'n teithio i'r dref ac i'r llys yn dod a chyfleoedd masnachol i fusnesau yn y Fenni.” (Steve Salter, YH)

“Rwy'n teimlo dros lawer o bobl, nid yn unig y Diffynyddion, ond tystion ac yn y blaen, oherwydd byddai'n anodd pe bai'r unig lysoedd ond ar gael yng Nghwibrân a Chasnewydd. Mae'r rhain yn weddol bell oddi wrth Gyhoedd Blaenau Gwent, a theimlaf y dylid rhoi cynnig ymlaen i gadw llys yn ardal y Fenni.” (Joanne Marie Rowlands)

“Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn meddwl dim am amseroedd teithio, gan gynnwys teithio i ddepo trafndiaeth ac adref, heb ystyried yr amser a gymerir i gerdded i adeilad y llys. Mae cysylltiadau trafndiaeth rhesymol i Gaerffili o gyfeiriad Gogledd y Cymoedd Gorllewinol, ond mae meddwl am deithio i Gwibrân o'r Cwm neu Lynebwy yn digalonni rhywun, a byddai'n cymryd o leiaf dwy awr. Mae'r amseroedd teithio a nodir yn y ddogfen yn ddelfrydol ac nid yn realistig, ac yn bendant nid ydynt yn rhoi ystyriaeth i drefniadau trafndiaeth gyhoeddus yn ystod tywydd garw yn y gaeaf.” (Zoe Scott, Cadeirydd Panel Teulu Gwent)

Mae'n bosib teithio i unrhyw le bron yng Ngwent mewn llai nag awr mewn car preifat. Bydd siwrneiau hirach ar drefndiaeth gyhoeddus ar gyfer rhai, ond nid yw hyn ar ei ben ei hun yn rheswm i gadw'r llys ar agor. Mae'r arferion rhestru yng Ngwent yn golygu bod treialon yn cael eu rhestru ar y dyddiad llys cyntaf priodol sydd ar gael mewn unrhyw lys, heb ystyried ym mhle mae'r diffynnydd yn byw, oni bai y gofynnir am leoliad penodol. Gan ei fod yn arfer cyffredin yn barod i ddefnyddwyr deithio i amryw o lysoedd yng Ngwent ar gyfer gwrandawiaadau, mae'r effaith yn gyfyngedig, ac felly mae'n anodd nodi os bydd cynnydd neu ostyngiad mewn amseroedd teithio - ar wahân i ddweud fod gan Gasnewydd, fel yr unig ddinas yng Ngwent, gysylltiadau trafndiaeth gwell. Mae dadansoddiad manylach o'r amseroedd teithio ar gael yn Atodiad B.

Mae'r Fenni tua 20 milltir i ffwrdd o Gasnewydd, ac mae'n cymryd oddeutu 30 munud mewn car, ac mae'r Fenni tua 14 milltir i ffwrdd o Gwibrân, ac mae'n cymryd oddeutu 25 munud mewn car. Mae'n costio £7.50 i deithio ar fws o'r Fenni i Gasnewydd ac i Gwibrân; ac mae tocyn dwyffordd yn costio £10.00 ar drên i Gasnewydd a £6.10 i Gwibrân. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a

Thriwlynlysoedd EM yn ystyried ceisiadau am amseroedd dechrau a gorffen mwy hyblyg ar gyfer gwrandawiadau llys ar sail achosion unigol.

Bydd defnyddio cyswllt fideo ar gyfer defnyddwyr y llys y mae cynnydd mewn amseroedd teithio yn mynd i achosi problemau iddynt o bosib, yn galluogi dioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth o bell o safleoedd llys eraill, neu os yw'n briodol, o adeiladau awdurdod lleol/gorsafodd heddlu os ydynt ar gael.

“Mae'r Fenni yn llawer mwy hygyrch i bobl sy'n byw ar ochr uchaf y cwm, fel Tredegar, Glynwby a Brynmawr ayb. ac mae cau'r llys yn golygu cael gwared â chyfiawnder lleol unwaith eto.” (Anita Thomas, YH)

“Bydd cau llys y Fenni yn lleihau'r mynediad at gyfiawnder i lawer o bobl yng Ngogledd Gwent. Efallai nad yw hyn yn ymddangos yn sylweddol i'r criw daeryddol anwybodus yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn Llundain, ond bydd yn cael effaith enfawr ar y rhan fwyaf o'r bobl yng Ngogledd Gwent y mae'n rhaid iddynt ddod i'r llys fel diffynnyddion, tystion neu ddiodeffwyr.” (Richard Essery, YH)

“Heb llys yn y Fenni, ni fydd unrhyw adeilad llys yn Sir Fynwy. Felly, lle mae cyfiawnder lleol?” (Paul Webb, YH)

Mae gallu cyfyngedig yn Llys Ynadon y Fenni oherwydd nad oes dalfa yn yr adeilad i ganiatáu rhestru achosion yn syth o'r ddalfa neu achosion ble mae posibilrwydd bod angen anfon diffynnydd i'r ddalfa. Cadwyd y llys hwn o dan Raglen Diwygio Ystâd y Llys a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010. Roedd hyn yn bennaf oherwydd annigonolrwydd Llys Ynadon Casnewydd ar y pryd. Fodd bynnag, nodwyd fel rhan o'r Rhaglen Diwygio Ystâd y Llys, unwaith y byddai adeilad llys newydd ar gael yng Nghasnewydd, y gellir ailedrych ar y sefyllfa, gan gynnwys y penderfyniad i ymgynghori ynghylch pa un ai a ddylid cau llys y Fenni ai peidio. Agorodd y llys ynadon newydd yng Nghasnewydd ym mis Medi 2013, ac mae'n adeilad modern, addas i'r pwrpas, sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu mynediad effeithiol at gyfiawnder i ddefnyddwyr llys a'r triwlynlys, wrth geisio gwneud hynny gyda llai o arian, ochr yn ochr â'i ymdrechion i wella effeithlonrwydd y system gyfiawnder yn gyffredinol. Mae technoleg, mewn rhai sefyllfaoedd, wedi dileu'r angen i rai defnyddwyr ddod i'r llys eu hunain. Mae gan ddefnyddwyr sy'n gorfod talu dirwy gyfleuster i wneud hyn ar-lein, heb fod angen mynd i adeilad llys; ac mae nifer gynyddol o gysylltiadau fideo ar gael yn lleol, felly'n dileu'r costau ynghlwm wrth deithio i adeilad llys ar gyfer gwrandawiadau.

## **2. Adeilad a Gwariant**

Roedd nifer o'r ymatebion yn tynnu sylw at yr arian a wariwyd yn Llys Ynadon y Fenni, a'r cyfle i ddefnyddio'r adeilad a gadael adeiladau eraill.

“Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn crybwyll y gwaith atgyweirio sylweddol a wnaethpwyd yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn yr adeilad llys hwn. Pe bai'r llys yn cau, pam y gwariant?” (Sandra Williams, YH)

“Roedd y llys yn cydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn 2010. Nid yw'r ddogfen yn datgan pam nad yw'n cydymffurfio mwyach. Nid yw'r adeilad yn wael,

mae'r ystafelloedd llys yn ddymunol iawn i weithio ynddynt, yn olau ac awyrog, ac mae'r ystafelloedd ymneilltuo yn well na'r rhai yng Nghasnewydd. Nid oes angen ail-wynebu'r maes parcio, er, rydym yn derbyn fod mynediad yn lletchwith. Nid yw'n iawn i ddweud fod y Grŵp Materion Barnwrol wedi rhoi'r gorau i restru achosion yma, heb nodi un o'r rhesymau hefyd, sef y pwysau gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i wella'r amseroedd mewnbynnu canlyniadau llys. Roedd yn rhwyddach cyflawni hyn yng Nghwmbrân oherwydd bod y staff priodol yn arfer gweithio yn yr adeilad – ond nid ydynt yno bellach” (Ynadon Gwent).

“Mae'r ffaith bod y cynnig i gau adeilad llys y Fenni yn cael ei ystyried yn chwerthinllyd..... NID oes angen gwneud gwaith atgyweirio yn y llys; cyflawnwyd gwaith uwchraddio drud iawn ychydig o flynyddoedd yn ôl. Ar ôl eistedd yn y Fenni, dyma'r adeilad llys sydd yn fwyaf 'addas i'r pwrpas' yng Ngwent, yn fy marn i.” (Richard Essery, YH)

“Nid oes llawer o amser wedi mynd heibio ers y gwariwyd £500K ar lys ynadon y Fenni. Mae'n adeilad perffaith i gynnal llysoedd teulu a thribiwnlysoedd, o ystyried bod llawr cyfan yn cael ei rentu yn Nhŷ Clarence yng Nghasnewydd, sy'n costio llawer o arian i'r trethdalwr.” (Paul Webb, YH)

“Gwariwyd llawer o arian yn ddiweddar i ddod â'r adeilad i'r safon briodol. Bydd yr arian hwn yn wastraff yn awr.” (David Davies AS)

Yn dilyn arolwg cyflwr yn 2008, gwariwyd £463,000 ar yr adeilad am resymau iechyd a diogelwch a gwaith cynnal a chadw cyffredinol i'w gadw'n addas i'r cyhoedd ei ddefnyddio, gan gynnwys gwaith atgyweirio ar ôl i'r to ddisgyn i lawr. Roedd y gwaith ailwampio hwn hefyd yn cynnwys ychydig o waith i sicrhau bod yr adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Rhoddwyd stop ar waith cynnal a chadw pellach yn ystod yr ymgynghoriad yn 2010, ac ni ddechreuodd y gwaith yn ôl oherwydd bod gwaith adeiladu'r llys newydd yng Nghasnewydd wedi cychwyn. Nodwyd fod angen ail-wynebu'r maes parcio yn llys y Fenni yn yr arolwg cyflwr, a oedd yn datgan ei fod “yn dod i ddiwedd ei fywyd defnyddiol”.

Er gwaethaf y buddsoddiad, 21% oedd cyfradd defnydd y Fenni ar gyfer 2013/14 a 0% yn 2014/15. Pan agorodd yr adeilad newydd yng Nghasnewydd, penderfynodd y Grŵp Materion Ynadon Lleol i beidio â rhestru achosion troseddol yn Llys Ynadon y Fenni, a throsglwyddwyd y gwaith troseddol i adeilad newydd Llys Ynadon Casnewydd.

Mae'r les ar Dŷ Clarence, sef cartref Canolfan Gwaith Sifil a Theulu Casnewydd yn ddilys tan 2024, a byddai'n costio mwy na £2m i'w derfynu. Rhoddwyd estyniad ar Dŷ Clarence i wneud lle i staff o'r hen adeilad 'Swyddfa Pasbort', Tŷ Olympia a Pentonville, a oedd creu safle mwy ar gyfer llys teulu unedig. Mae Tŷ Clarence yn darparu 352m<sup>2</sup> yn rhagor o le o'i gymharu â'r Fenni a Chaerffili gyda'i gilydd.

### 3. Defnydd eraill posibl

Roedd amryw o ymatebion yn awgrymu y gellir defnyddio adeilad Llys Ynadon y Fenni ar gyfer gwrandawiadau a gwaith teulu.

“Mae Llys Ynadon y Fenni yn amlwg yn addas i’w ddefnyddio fel llys teulu. Rwyf wedi derbyn ceisiadau gan y Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) Richard Williams a Chadeirydd y Panel Teulu i’w ddefnyddio ar gyfer gwrandawiadau teulu sy’n cael eu herio. Rwyf ar ddeall bod ceisiadau o’r fath wedi cael eu gwrthod ar y sail nad yw’r Fenni ar gael i’w ddefnyddio, ond nid yw wedi cau (Stephen Whale, Clerc yr Ynadon mewn cyfarfod diweddar gydag Ynadon De Cymru). Mae’n ymddangos yn wrthnysig i gynnig cau, yn rhannol, o leiaf oherwydd diffyg defnydd pan mae ceisiadau i’w ddefnyddio wedi cael eu gwrthod...Byddai unrhyw waith i wella’r adeilad er mwyn ei wneud yn addas ar gyfer gwrandawrio achosion teulu yn dipyn llai ar sail y ffigurau a ddyfynnwyd yn y ddogfen Ymgynghori.” *“Fe’m cynghorwyd bod prinder o ystafelloedd addas yng Nghasnewydd i gynnal gwrandawiadau cyfraith gyhoeddus yn is na lefel CJ ar hyn o bryd. Mae ynadon llewg wedi bod yn defnyddio Llys Ynadon Cwmbwrân i lenwi’r bwlch. Mae’r ystafelloedd eraill yn Nhŷ Columbus yng Nghasnewydd yn addas ar gyfer achosion cyfraith breifat a chyfraith gyhoeddus sydd ag uchafswm o bedwar parti yn unig. Mae’r cyfleusterau yn y manau aros yn llai ac yn fwy cyfyngedig na’r hyn sy’n ddymunol...Byddai’n well rhestru achosion cyfraith gyhoeddus yn Nhŷ Clarence yn unig, ac i achosion cyfraith breifat gael eu rhestru yn rhywle arall, oni bai bod cyfleuster gwell ar gael. Nid oes cyswllt rhwydwaith yn yr ystafell ymneilltuo i Farnwr Rhanbarth neu Farnwr Cylchdaith sy’n eistedd am fwy nag un diwrnod. Pe bai’n bosibl i barhau i ddefnyddio’r Fenni ar gyfer achosion teulu, byddai’n darparu datrysiad rhannol i’r gorlenwi yng Nghasnewydd.”* (EAB I Parry, Barnwr Teulu Dynodedig)

“Rydym yn derbyn bod diffyg celloedd yn broblem, ond gellir goresgyn hyn wrth newid y defnydd. Mae’r Fenni yn berffaith fel llys Teulu – un opsiwn yn dilyn y gwaith ailwampio yn 2010 – ond mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd wedi gwrthod ceisiadau dro ar ôl tro, gan gynnwys rhai gan y Barnwr Teulu Dynodedig ei hun, i ddefnyddio’r Fenni fel llys gorlif, ac felly wedi cyflymu ei dranc trwy ddiffyg.” (Ynadon Gwent)

Ni ystyrir bod cadw Llys Ynadon y Fenni ar gyfer gwaith teulu yn ymarferol pan fo capasiti dros ben mewn lleoliadau eraill yng Ngwent sy’n fwy effeithlon i gefnogi a gweinyddu’r gwaith. Oherwydd bod y llwyth gwaith sy’n deillio o’r ardal dan sylw yn isel, ni fyddai cwblhau’r gwaith cynnal a chadw o £210,000 a thalu costau gweithredu parhaus yn cyfiawnhau cadw ac/neu newid y defnydd a wneir o’r adeilad.

### 4. Ymatebion eraill

Derbyniwyd nifer o sylwadau eraill hefyd:

“Mae’r Fenni yn darparu gwasanaeth llys yng Ngogledd Ddwyrain yr ardal weinyddol ar gyfer awdurdodaeth Gwent, ac mae’n caniatáu’r capasiti ar gyfer unrhyw gynnydd mewn achosion llys. Byddai cau’r Fenni yn dileu’r capasiti posibl hwn, a byddai’n atal ei ddefnyddio pe bai cynnydd yn nifer y gwrandawiadau llys, neu pe bai problem lle na ellir defnyddio’r llysoedd sydd ar ôl, e.e. llifogydd, tân, nam ar adeilad ayb.” (Eifion Pomeroy, YH)

Mae'r pedwar ystafell llys yn Llys Ynadon Cwibrân yn darparu capasiti ychwanegol digonol pe bai'r llwyth gwaith yn cynyddu yn y dyfodol. Bydd y cynnig hwn yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i leihau'r ystâd sydd dros ben neu sy'n cael ei danddefnyddio er mwyn darparu cyfleusterau gwell i'r holl ddefnyddwyr mewn canolfannau mwy, a chan gadw mynediad at gyfiawnder yng Ngwent.

Mae nifer o ynadon wedi mynegi pryderon ynglŷn â recriwtio a chadw ynadon yn y dyfodol. Maent yn cynrychioli'r amrywiaeth o'r boblogaeth yn y gymuned; ac maent yn aelodau gwerthfawr o'r farnwriaeth sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd er budd y cymunedau a wasanaethir ganddynt, ym mhle bynnag y maent yn darparu cyfiawnder. Bydd gwaith y fainc yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau nad yw eisteddiadau'r ynadon yn disgyn yn is na 26 mewn nifer yn ystod y flwyddyn ariannol.

Derbyniwyd nifer o ymatebion o blaid y cynnig:

"Mae'r Fenni yn dref weddol anghysbell, sydd ddim yn bell iawn o Gasnewydd na Chwibrân. Ni welaf unrhyw reswm dros beidio â chau'r llys er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd" (Sian Hayward, YH)

"Nid yw'r Fenni wedi bod ar agor i ddefnyddwyr y llys am dros flwyddyn, felly mae hyn yn academaidd. Mae wedi cau'n barod mewn ffordd..." Mae diffynyddion o'r Fenni wedi bod yn teithio i Gwibrân a Chasnewydd, felly nid oes unrhyw effaith pellach yn codi" (Lynda Rhead, Cyfreithiwr).

"Cytuno gyda'r cynnig i gau. Nid yw wedi cael ei ddefnyddio am wyth neu naw mis bellach, ac ymddengys nad oes unrhyw broblemau gyda chleientiaid o'r ardal honno'n teithio i Gwibrân neu Gasnewydd." (Paul Philpott, Cyfreithiwr)

"Ar y cyfan, credaf y dylid cau'r llys, ond mae'n anffodus i'r diffynyddion hynny sydd â phroblemau ariannol o ran y teithio" (Loretta Evans, YH)

Bydd y cynnig hwn yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i leihau'r ystâd sydd dros ben neu sy'n cael ei danddefnyddio er mwyn darparu cyfleusterau gwell i'r holl ddefnyddwyr mewn canolfannau mwy, a chan gadw mynediad at gyfiawnder yng Ngwent a Chwibrân, lle mae cysylltiadau trafniadaeth gwych ar gael. Byddai hyn yn golygu cynnydd o ran y defnydd a wneir o'r llysoedd; delio gyda gwaith troseddol yn fwy effeithlon ac effeithiol, a gwerth am arian gwell i'r trethdalwr.

Roedd nifer o'r ymatebion yn nodi na fyddai'r cau yn effeithio'n fawr arnynt:

"Dyma'r llys agosaf i mi o ran milltiroedd, ond mae'r un fath â Chwibrân a Chasnewydd o ran amser teithio." (Richard Essery, YH)

"...i'r gwrthwyneb, mae'n arbed amser teithio cymorth cyfreithiol a chostau teithio – awr o amser teithio a 40 milltir am 45c y filltir." (Paul Philpott, Cyfreithiwr)

"Fel ynad, ni fyddai'n effeithio arnaf i'n bersonol oherwydd nad oes angen i mi ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus." (Carol Brimble, YH)

## Ymatebion i bwyntiau penodol – Llys Ynadon Caerffili

### 5. Trafnidiaeth/Mynediad at Lysoedd Lleol

Fel gyda'r cynnig i gau Llys Ynadon y Fenni, roedd nifer o'r ymatebion yn ymwneud â phroblemau teithio o ran amser a chostau.

"Ni roddwyd dim ystyriaeth i'r amser y mae'n cymryd i deithio i'r depos trafndiaeth ac yn ôl, nid oes gwasanaethau trenau a bws cyson mewn rhai ardaloedd...Os nad yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystyried yr holl opsiynau'n fanwl, mae'n bosib na fydd pobl yn troi fyny, rhagor o bobl yn y ddalfa, ac o ganlyniad, bydd y nifer o bobl sy'n hwyr a'r angen i ailrestru'r achosion yn cynyddu." (Cadeirydd Cymdeithas yr Ynadon)

"Nid yw'r amseroedd teithio ar gyfer defnyddwyr y llys yn gywir. Mae'n cymryd awr i deithio o Rymni i Gaerdydd ar drên, yna mae'n rhaid newid trên i gyrraedd Casnewydd neu Gwmbrân. Hefyd, nid yw pob trên yn mynd yn uniongyrchol i Gwmbrân, a gallai olygu bod rhaid teithio ar drên, ar fws a cherdded i gyrraedd y llys. Mae trenau yn mynd bob 15 munud o Gaerdydd i fyny'r Cwm i Ystrad Mynach, Bargoed a Rhymni. Mae llys Caerffili yn agos i'r orsaf drenau a'r orsaf bysiau, ond nid oes llawer o arwyddion i lys Casnewydd, ac nid ydynt yn agos i'r llys o gwbl. Mae'r llefydd parcio yng Nghasnewydd yn gyfyngedig iawn, nid yw'r maes parcio yng Nghwmbrân yn agos iawn, ac nid yw'r llysoedd ar yr un lefel. Nid yw'r arferion rhestru llysoedd yn dda iawn yn ddaearyddol, mae'r gwrandawiadau yn cael eu rhestru mewn llysoedd gwahanol fel na ystyrir gwybodaeth leol na'r angen i deithio i amryw o lysoedd ar gyfer holl ddefnyddwyr y llys." (Jennifer James, YH)

"Gallai gorfodi fy etholwyr i deithio i Gasnewydd neu Gwmbrân gael goblygiadau sylweddol ar amseroedd a chostau teithio - yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar dtrafnidiaeth gyhoeddus.

Hefyd, mae gennyf bryderon ynglŷn â'm hetholwyr bregus, sydd wedi'u cyhuddo o gyflawni trosedd ac sy'n cael eu cadw mewn llys yn bellach i ffwrdd na Chaerffili, ac effaith bosibl hyn ar les eu teuluoedd." (Jeff Cuthbert, AC)

"Bydd yn fwy anghyfleus i bobl broffesiynol sy'n gweithio yn ardal Caerffili ac i ddiffnyddion o ran teithio, a dylid rhoi ystyriaeth i hyn, ond mae'r amseroedd teithio yn weddol fyr o'n profiad ni o orfod teithio i Gaerffili'n ddyddiol cyn i'r llys newydd yng Nghasnewydd gael ei adeiladu." (Paul Philpott, Cyfreithiwr)

"Rwy'n arbennig o bryderus o'r ffaith nad yw'r ddogfen ymgynghori yn rhoi ystyriaeth lawn i'r costau a'r anghyfleustra a allai achosi i'm hetholwyr o ganlyniad i orfod teithio yn bellach. Tra rwy'n derbyn ei fod yn arfer cyffredin ar hyn o bryd i restru treialon mewn unrhyw lys yng Ngwent, cynhelir y gwrandawiadau cyntaf yn y llysoedd ynadon lleol. Heb amheuaeth, byddai canoli yng Nghasnewydd ac yng Nghwmbrân yn rhoi etholwyr sy'n byw yng Nghwm Rhymni dan anfantais." (Wayne David, AS)

"Yn syml, nid yw'n wir fod y gwrandawiadau'n cael eu rhestru yn y llys nesaf sydd ar gael heb ystyried daearyddiaeth. Byddai meinciau, lle bo'n bosibl, yn cytuno i wrando achos



mewn llys penodol, yn enwedig mewn perthynas â threialon, hyn sydd wrth galon cyfiawnder...Nid yw'r ddogfen yn diffinio amseroedd teithio 'derbyniol'. Byddai gwir amseroedd teithio ar gyfer llawer o bobl dros ddwy awr yn gyson. Mae hyn yn annerbyniol o hir, ac nid yw'n gyfiawn nac yn deg." (Ynadon Gwent)

"Mae'r Llys Teulu wedi cydnabod yr angen pendant am lys yng ngogledd orllewin Cymoedd Gwent, ac nid oes amheuaeth y dylid cynnal llys troseddol yn y Cwm Gorllewinol hefyd - dyma'r ardal fwyaf difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd yng Ngwent, ac nid oes gan lawer o bobl gar felly maent yn dibynnu ar drafndiaeth gyhoeddus. Mae'r angen am gyfiawnder hygyrch o'r pwys mwyaf, ac mae angen meddwl yn ofalus iawn am y cwm gorllewinol a Chaerffili." (Zoe Scott, Cadeirydd y Panel Teulu)

Y drefn gyfredol yng Ngwent yw bod llawer o waith y llys yn cael ei gynnal mewn llysoedd ar draws yr ardal, sydd yn un Ardal Cyfiawnder Lleol (Mainc), heb ystyried ym mhle cyflawnwyd y trosedd. Mae erlyniadau gan yr heddlu gan gynnwys achosion traffig, wedi'u canoli yng Nghasnewydd.

Er ei bod yn wir y byddai rhai siwrneiau hirach ar drafndiaeth gyhoeddus ar gyfer rhai, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn rheswm i gadw'r llys ar agor. Oherwydd yr arferion rhestru yng Ngwent, mae'n anodd nodi os bydd cynnydd neu ostyngiad mewn amseroedd teithio - ar wahân i ddweud fod gan Gasnewydd, fel dinas yng Ngwent, gysylltiadau trafndiaeth gwell. Mae dadansoddiad manylach o'r amseroedd teithio ar gael yn Atodiad B. Mae'r daith o Gaerffili i Gasnewydd, sy'n 12.5 milltir, yn cymryd oddeutu 30 munud mewn car, ac mae'r daith o Gaerffili i Gwibrân, sydd oddeutu 17 milltir, yn cymryd 40 munud mewn car. Mae'n costio £5.30 i deithio ar fws o Gaerffili i Gasnewydd ac mae'n costio £7.50 i Gwibrân; mae'n costio £10.50 ar drên i Gasnewydd a £8.50 i Gwibrân. Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ystyried ar sail achosion unigol, unrhyw geisiadau am amseroedd dechrau a gorffen mwy hyblyg ar gyfer gwrandawiadau llys a defnyddio cyswllt fideo mewn perthynas â defnyddwyr y llys y gallai amseroedd teithio hwy achosi problem iddynt.

Gwahoddir y Grŵp Busnes Barnwrol (JBG) lleol i ymgynghori ar y newidiadau posibl i ffiniau'r Ardal Cyfiawnder Lleol. Byddai hyn yn galluogi gwrandao peth o'r llwyth gwaith sy'n cael ei brosesu yn Llys Ynadon Caerffili nawr yng Nghaerdydd, sydd ddim yn bosibl ar hyn o bryd o dan drefniadau'r Ardal Cyfiawnder Lleol presennol. Gall y newid posibl hwn olygu amseroedd teithio byrrach i'r llys ar gyfer rhai defnyddwyr y llys sy'n gorfod teithio i Lys Ynadon Caerffili.

Rydym yn derbyn y bydd hyn yn effeithio ar rai ynadon sy'n gorfod teithio i Gasnewydd neu Gwibrân, ond bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio gyda'r ynadaeth i sicrhau bod eu lleoliad o fewn y llysoedd ynadon yn effeithlon a chost effeithiol.

"Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar lawer o bobl sy'n byw yng Nglynebwy, Cwm Sirhywi a Chwm Rhymini. Bydd yn cael gwared ar y cysyniad hir sefydlog o gyfiawnder 'lleol'." (Roger Evans, YH)

"Cael gwared ar gyfiawnder lleol. Gellir defnyddio ystafelloedd llys nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer cynnal gwrandawiadau eraill, a pheidio â gwario arian ar lety rhent yn Nhŷ Clarence, Casnewydd ar gyfer gwrandawiadau teulu" (Paul Webb, YH)

"Dylid cadw Llys Ynadon Caerffili ar agor oherwydd ei fod yn darparu gwasanaeth llys yng ngorllewin ardal awdurdodaeth Gwent, sydd o fudd i ddefnyddwyr y llys. Byddai cau Caerffili yn lleihau'r capasiti o ran llysoedd sydd ar gael" (Eifion Pomeroy, YH)

Roedd cyfradd defnydd Llys Ynadon Caerffili yn 48% yn ystod 2013/14. Fodd bynnag, gostyngodd y ffigur hwn i 22% o'r cyfnod rhwng mis Hydref 2013 a mis Mawrth 2014 oherwydd bod nifer sylweddol o ddefnyddwyr y llys wedi ymddangos gerbron Llys Ynadon Casnewydd ar ôl iddo agor. Yn 2013/14, 45% oedd y gyfradd defnydd ar gyfer gwaith troseddol yng Ngwent. 64% oedd y gyfradd defnydd ar gyfer gwaith sifil, teulu a'r tribiwnlysoedd yn yr un cyfnod. 14% oedd cyfradd defnydd Llys Ynadon Caerffili yn 2014/15. Wrth ymgynghori ar ddyfodol Llys Ynadon Caerffili, mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM roi'r sylw priodol i'r angen i ddarparu cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon, wrth ddarparu gwerth am arian i bwrs y wlad.

## 6. Gwariant

Roedd yr ymatebion yn codi pryderon ynglŷn ag ansawdd a pha bryd y cyflawnwyd gwaith atgyweirio blaenorol.

“Rwyf ar ddeall na gyflawnwyd gwaith cynnal a chadw ar unwaith mewn perthynas â'r difrod i'r nenfwd. Mae hyn yn golygu bod y gwaith atgyweirio'n ddrytach, ac mae'n sail i'r honiad bod gadael unrhyw waith cynnal a chadw heb ei wneud yn arwain at y prif amcan, sef cau'r adeilad oherwydd nad yw'n economaidd i'w drwsio. Tacteg a ddefnyddiwyd gan y Gwasanaeth Ambiwlans, ond yn dilyn protest gyhoeddus, bu'n rhaid iddynt rentu gorsaf a oedd yn costio'n aruthrol. Sefyllfa na fyddai'n farnwriaeth eisiau mynd iddi.” (Steve Salter, YH)

Gwnaethpwyd ychydig o waith ailwampio yn Llys Ynadon Caerffili yn 2010/11, a oedd yn cynnwys rhywfaint o waith addurno a gosod llawr newydd. Cyflawnwyd y gwaith atgyweirio yn Llys Un i wneud yr adeilad yn ddiogel, ond ni wnaethpwyd unrhyw waith pellach o ganlyniad i'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi cael ei fonitro, ac nid yw cyflwr y nenfwd yn dirywio.

“Adeilad sy'n berffaith iawn, lle nad oes angen gwario llawer o arian arno i gael tair ystafell llys y gellir eu defnyddio ar gyfer gwrandawiaadau eraill. Cyfleusterau parcio da.” (Paul Webb, YH)

Mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol yn Llys Ynadon Caerffili, gan gynnwys gwella'r celloedd, amcangyfrifir costau o £1.2m ar hyn o bryd, a gwaith cynnal a chadw yn y ddalfa oherwydd nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau cyfredol PECs (nifer ac arddull y celloedd; cyfleusterau lles ar gyfer staff GeoAmev). Hefyd, mae angen gwneud gwaith atgyweirio i'r nenfwd yn Llys 1, amcangyfrifir cost o £27,000. Hefyd mae angen uned trin aer yn y ddalfa, yn ogystal â gwaith addurno a chynnal a chadw cyffredinol, yn enwedig yn llys 3 ble mae problem fawr gyda thamprwydd.

## 7. Llety

“Tra bo'r adeilad llys newydd yng Nghasnewydd yn cynnig gwasanaethau sy'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddefnyddwyr y llys, gan gynnwys unigolion allai fod yn fregus, rwy'n deall nad yw safon yr ystafelloedd llys yng Nghwbrân mor uchel â Chasnewydd. A fydddech cystal â sicrhau y rhoddir ystyriaeth i uwchraddio Cwbrân pe bai'r cynigion i gau'r Fenni a Chaerffili yn mynd ymlaen.” (Lesley Griffiths, AC, ar gyfer Carwyn Jones, Prif Weinidog)

“Mae'r llys hwn yn ganolog yn ddaearyddol. Mae llawer o arian wedi cael ei wario'n barod ar wella'r celloedd. Rydym yn cytuno ei bod yn anodd ac nad oes digon o lefydd parcio,

mae tamprwydd yn broblem fawr, yn ogystal â'r nenfwd sydd wedi'i ddifrodi yn Llys 1. Mae'n oer a swnllyd yn aml, ac mae'r mynediad i Lys 1 yn lletchwith.

Nid yw'r gyfradd defnydd o 48% yn gywir oherwydd dim ond dau lys y gellir eu defnyddio. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd wedi oedi'r gwaith atgyweirio yn Llys 1 i'r graddau nad ydynt yn economaidd mwyach, ac mae'n caniatáu i'r ffigurau defnydd 'brofi' eu pwynt, sy'n sail i'r honiad fod oedi'r gwaith cynnal a chadw yn arwain at y prif amcan - sef cau." (Ynadon Gwent)

Yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14, amcangyfrifir bod costau cynnal a chadw Llys Ynadon Caerffili oddeutu £1.23m, gyda chostau gweithredu parhaus o £130,000. Mae'r costau hyn, yn ogystal â'r defnydd isel a wnaethpwyd o'r adeilad, sef 22% yn golygu nad yw cadw'r adeilad yn fforddiadwy nac yn ymarferol, oherwydd ni fyddai'n rhoi gwerth am arian. Byddai angen peth gwaith addasu yn Llys Ynadon Caerffili i'w wneud yn addas ar gyfer gwaith teulu, ac ni fyddai hyn yn gost effeithiol. Mae'r gyfradd defnydd cyffredinol yng Ngwent oddeutu 60%, ac os bydd cynnydd yn y llwyth gwaith ar draws unrhyw awdurdodaeth, mae digon o gapasiti o fewn yr Ardal Cyfiawnder Lleol i gymryd y gwaith.

Mae ffocws ar ble gellir gwella wrth ddarparu busnes y llys yn ofyniad allweddol ar gyfer pob asiantaeth cyfiawnder, gan sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer dioddefwyr, tystion a defnyddwyr eraill y llys. Y ffocws ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM fydd darparu'r gwasanaeth gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## **8. Cynnydd mewn gwaith teulu**

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wedi ymrwymo i redeg gwasanaeth llysoedd a thribiwnlysoedd effeithlon ac effeithiol. Mae rhan o'r ymrwymiad hwn yn ymwneud â gwerthuso'r ystâd a'r defnydd a wneir o'n holl adeiladau llys yn barhaus.

"Mae'r gwaith teulu yng Ngwent wedi bod yn cynyddu'n gyflym, sy'n golygu bod rhaid gwneud rhagor o ddefnydd ar lysoedd yng Nghanolfan y Llysoedd Sifil Caerdydd a Chwibrân, oherwydd bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gwrthod pob cais, gan gynnwys rhai gan y Barnwr Teulu Dynodedig ei hun, i ddefnyddio'r Fenni. Fodd bynnag, pe bai'r cynigion hyn yn mynd yn eu blaenau, mae'r capasiti dros ben yng Nghwibrân i wrando achosion teulu yn diflannu. Mewn unrhyw sefyllfa, mae'n hollol amhriodol i wrando ar achosion teulu mewn llys lle mae gwaith troseddol yn mynd ymlaen hefyd. Mae'r Barnwr Teulu dynodedig wedi dweud na ellir defnyddio Caerdydd ddim mwy, oherwydd nad yw'n dderbyniol i bartion orfod teithio y tu allan i Went. Rhoddwyd ystyriaeth yn ddiweddar i ddefnyddio'r capasiti yn rhannau gorllewinol y sir; os yw hyn yn briodol ar gyfer achosion Teulu, pam nad yw'r un peth yn wir ar gyfer llysoedd oedolion?" (Ynadon Gwent)

"Fy mhrif bryder ynglŷn â Llys Ynadon Caerffili yw'r posibilrwydd o gollir gallu i ddefnyddio llysoedd yng Nghwibrân ar gyfer gwaith teulu dros ben o Gasnewydd o ganlyniad i drosglwyddo achosion Caerffili i Gwibrân." (EAB I Parry, Barnwr Teulu Dynodedig)

Ers agor y llys ynadon newydd yng Nghasnewydd, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith a wnaethpwyd yn Llys Ynadon Caerffili a Llys Ynadon y Fenni yn cael ei wneud yn Llys Ynadon Casnewydd yn awr, felly ni ddylai effeithio ar y gwaith teulu a wrandawir yng Nghwibrân ar hyn o bryd.

## 9. Ymatebion eraill

Derbyniwyd nifer o ymatebion o blaid y cynnig:

“Ni fyddai cau Llys Caerffili yn amharu gymaint ar ddefnyddwyr y Llys o'i gymharu â chau Llys y Fenni, mae cysylltiadau trafndiaeth da o Gaerffili i Gasnewydd a Chwibrân...Mae'r adeilad ei hun mewn cyflwr gwael, ac mae wedi bod yn dirywio ers nifer o flynyddoedd, ac yn wir, nid yw llawer o ynadon yn hoffi eistedd yng Nghaerffili oherwydd bod yr adeilad yn digalonni rhywun.” (Carol Brimble, YH)

“Mae hyn yn ymddangos yn synhwyrol, ac eithrio diffynyddion sy'n byw yng Nghaerffili ei hun, mae'r daith i Gasnewydd ar drafndiaeth gyhoeddus yn llawer haws i'r rhai sy'n byw yn Nhredegar, y Coed Duon, Glynebwy, Brynmawr ac Abertyleri. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ddiffynnydd sy'n byw ym Mrynmawr deithio ar dri bws gwahanol i gyrraedd Caerffili, lle mae bws uniongyrchol yn teithio o Frynmawr i Gasnewydd.” (Lynda Rhead, Cyfreithiwr)

“Mae'n rhaid i mi ddweud y gwir yn blaen. Mae Llys Ynadon Caerffili yn dwll o le, a dylid cau'r adeilad yn ddi-oed. Rwy'n ystyried yr adeilad llys yn beryglus o ran iechyd a diogelwch, ac rwyf yn gwrthod eistedd yno oherwydd disgynnodd y nenfwd i lawr yn un o'r llysoedd yno yn ddiweddar. Mae'r adeilad yn oer yn y gaeaf ac yn boeth iawn yn yr haf, ac mae awyrgylch adeilad llywodraeth Gogledd Korea yno. (Hefyd, rwy'n gwrthod eistedd yno oherwydd ei fod yn cymryd dros awr i deithio o fy nghartref i Gaerffili).” (Richard Essery, YH)

## 10. Llys Ynadon Cwibrân

Roedd nifer o'r ymatebion yn gofyn y cwestiwn pam nad yw Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn ystyried dyfodol Llys Ynadon Cwibrân.

“Mae'r gangen Cymdeithas Ynadon yn derbyn bod cadw Cwibrân, y Fenni a Chaerffili yn afrealistig yn dilyn cael yr adeilad pedwar llys, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag...mae'n gwneud mwy o synnwyr cadw Caerffili oherwydd ei fod yn y cwm gorllewinol ac ystyried cau Cwibrân. Nid yw'n bosibl parcio am ddim yno drwy'r dydd mwyach, ac mae'r dirwyon yn uchel. Mae'r daith gerdded o'r orsaf drenau, sydd ar ochr arall y dref yn golygu croesi priffyrdd prysur iawn.” (Zoe Tohill Scott, Cadeirydd Cangen Gwent o Gymdeithas yr Ynadon)

“Pe bai Cwibrân yn cau a Chaerffili yn aros ar agor, byddai'r mynediad ar drên, bws ac mewn car, yn ogystal â'r defnydd a wneir o'r safle, yn llawer haws i bawb. Mae'r arbedion disgwylidig yn deillio o werthu'r tir yng Nghaerffili, ond mae'n bosibl y byddai gwerth safle Cwibrân yn uwch.” (Jennifer James, YH)

Mae pedair ystafell llys yn Llys Ynadon Cwibrân, sy'n darparu rhagor o hyblygrwydd a chapasiti ar gyfer llwyth gwaith sy'n cynyddu a gostwng yng Ngwent. Awgrymwyd nad yw'r cyfleusterau yn Llys Ynadon Cwibrân o safon mor uchel. Ni dderbynnir y pwynt hwn; mae'n debyg i adeiladau llys eraill ar draws Cymru a Lloegr. Wedi dweud hynny, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i ddefnyddwyr y llys a thriwilysoedd, i ganolbwyntio ar wasanaethau'r rheng flaen a darparu mynediad at gyfiawnder. Bydd yn parhau i adolygu'r ystâd i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion gweithredol. Cyflawnwyd gwaith ailwampio yn Llys Ynadon Cwibrân tua phedair blynedd yn ôl. Mae tair ystafell llys ar y llawr gwaelod ac un

ar y llawr cyntaf. Mae ystafelloedd ar wahân ar gyfer gofalu am dystion, ac ystafelloedd ar gyfer y gwasanaeth prawf a chyfreithwyr.

Hefyd, awgrymodd un ymatebydd bod diffygion yn y ddogfen ymgynghori oherwydd nad oedd yn darparu rhagor o opsiynau; roedd yn dileu mynediad at gyfiawnder, yn rhoi gwybodaeth wallus o ran trafndiaeth a chostau teithio; byddai'n arwain at gostau cynyddol i'r llys; yn ogystal â chynnwys sylwadau anghywir. Ni dderbynnir hyn. Roedd yr Asesiad o Effaith yn benodol yn ystyried y posibilrwydd o amseroedd teithio ychwanegol ar gyfer pobl a fyddai'n teithio i Gasnewydd neu Gwibrân pe bai Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili yn cau, ond oherwydd yr arferion rhestru yng Ngwent, aseswyd na fyddai hyn yn cael effaith net o gwbl. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o aelodau'r gymuned fynychu llys ynadon yn rheolaidd. I'r rhai sydd yn dod i'r llys ynadon yn rheolaidd, bydd yr achosion yn parhau i gael eu gwranddo gan ynadon lleol.

Ailagorwyd Llys Ynadon Casnewydd ym mis Medi 2013 yn dilyn datblygu adeilad newydd, ac mae cyfleusterau modern ac addas i'r pwrpas yno ar gyfer ein holl ddefnyddwyr. Bydd trosglwyddo achosion o'r Fenni a Chaerffili yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i wneud arbedion drwy osgoi costau ailwampio uwch o'i gymharu â chostau galluogi. Byddai'r ystâd sydd dros ben ac yn cael ei danddefnyddio yn lleihau, a'r effeithlonrwydd o fewn yr ystâd yn cynyddu.

## Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys crynodeb manwl o'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Dadansodwyd y rhain yn llawn, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili, ac y dylai'r rhan fwyaf o'r llwyth gwaith gael ei symud i Lys Ynadon Casnewydd a Llys Ynadon Cwibrân.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion yn ymwneud â theithio, mynediad at gyfiawnder lleol a gwariant blaenorol ar yr adeiladau.

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- Byddai Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn gwneud arbedion blynyddol mewn perthynas â chostau adeilad a chyfleustodau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili, amcangyfrifir y rhain i fod oddeutu £80,000;
- Hefyd, byddai'n osgoi'r angen i Wasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM wario £1.4 miliwn i gyflawni gwaith cynnal a chadw yn Llys Ynadon y Fenni (£210,000) a Llys Ynadon Caerffili (£1.2m).
- Mae'r penderfyniad yn gwella'r defnydd a wneir o ystâd Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM, a fydd yn gwella a chynyddu'r defnydd a wneir o lysoedd troseddol yng Ngwent o 45% i oddeutu 73%.
- Bydd cyfuno llwyth gwaith y llysoedd ynadon yng Ngwent yn cynorthwyo gyda rheoli achosion a rhestru achosion yn effeithiol;
- Mae llwyth gwaith sylweddol o'r Fenni a Chaerffili wedi'i drosglwyddo'n llwyddiannus i Lys Ynadon Cwibrân a Llys Ynadon Casnewydd ers agor yr adeilad newydd yng Nghasnewydd ym mis Medi 2013;
- Dim ond un Ardal Cyfiawnder Lleol sydd yng Ngwent, felly ni fyddai angen uno meinciau. Fodd bynnag, gwahoddir y Grŵp Busnes Barnwrol Lleol i ymgynghori ar y newidiadau posibl i ffiniau'r Ardal Cyfiawnder Lleol. Byddai hyn yn galluogi gwranddo peth o'r llwyth gwaith sy'n cael ei brosesu yn Llys Ynadon Caerffili nawr yng Nghaerdydd, sydd ddim yn bosibl ar hyn o bryd o dan drefniadau'r Ardal Cyfiawnder Lleol presennol.
- Mae cyfleusterau gwell yn Llys Ynadon Cwibrân a Llys Ynadon Casnewydd, ac mae digon o le yno i gymryd y gwaith o'r Fenni a Chaerffili; a
- Rhestrir treialon ar y dyddiad llys cyntaf priodol sydd ar gael mewn unrhyw lys yng Ngwent, heb ystyried ym mhle mae'r diffynnydd yn byw. Mae'n arfer cyffredin eisoes i ddefnyddwyr y llys deithio i adeiladau llys amrywiol o fewn ardal Gwent ar gyfer gwrandawiaidau.

## **Gweithredu**

Bydd angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili, ac felly bydd angen cynhyrchu cynllun gweithredu manwl yn awr. Hysbysir rhanddeiliaid ynglŷn â pha bryd y disgwylir i'r llysoedd gau unwaith y llunnir cynllun gweithredu.

Hefyd, ymgynghorir â'n rhanddeiliaid sy'n defnyddio adeilad y llys yn awr, fel y gallant baratoi a gweithredu eu cynlluniau gweithredu ar gyfer trosglwyddo.

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn parhau i weithio'n agos ag asiantaethau partner i sicrhau y cyflawnir y trosglwyddiad.

## **Egwyddorion ymgynghori**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/Consultation-Principles.pdf>



## **Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr**

Wayne David, AS

David Davies AS

Lesley Griffiths, AC, ar gyfer Carwyn Jones, Prif Weinidog

Jeff Cuthbert, AC

Lindsay Whittle, AC

Simon Boyle, Arglwydd Raglaw Gwent

EA y Barnwr Isabel Parry, Barnwr Teulu Dynodedig

Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) R Williams

Carol Brimble, YH

Richard Essery, YH

Mrs Loretta Evans, YH

Roger Evans, YH

Gillian Gibbs, YH

Sian Hayward, YH

Jennifer James, YH

Mr Martin Parfitt, YH

Paul Phillips, YH

Eifion Pomeroy, YH

Steve Salter, YH

Anita Thomas, YH

Paul Webb, YH

Sandra Williams, YH

Ynadon Gwent

Zoe Tothill Scott, Cadeirydd Cangen Gwent o Gymdeithas yr Ynadon

Zoe Tothill Scott, Cadeirydd Panel Teulu Gwent

Scott Bowen, Cyfreithwyr Keith Evans

Paul Philpott, Quality Solicitors HPJV

Lynda Rhead, Cyfreithwyr Gartside

Darren Ball, GLITEM

Lee Thomas, GLITEM

Joanne Marie Rowlands

## Atodiad B

### Amseroedd teithio

Yr arfer presennol yng Ngwent yw neilltuo treialon i'r llysoedd ynadon (yng Nghasnewydd, Cwmbrân, Caerffili a'r Fenni) ar sail y dyddiad llys addas cyntaf sydd ar gael, yn hytrach na lleoliad y llys. Felly, er enghraifft, mae'n rhaid i bobl sy'n byw yng Nghaerffili neu yng Nghasnewydd deithio i Gwmbrân am rai gwrandawiadau, a phobl sy'n byw yng Nghwmbrân deithio i Gasnewydd neu Gaerffili ar gyfer mathau eraill o wrandawiadau.

Felly, mae'n anodd mesur yr effaith ar ddefnyddwyr y llysoedd ynadon yng Ngwent oherwydd ei fod eisoes yn arfer cyffredin i deithio i amryw o lysoedd o fewn ardal Gwent ar gyfer gwrandawiadau. Bydd rhai preswylwyr yn ardal Gwent yn gorfod teithio'n bellach i'r llys, ond ni fydd yn rhaid i eraill deithio mor bell; felly tybir na fyddai unrhyw effaith net ar gyfer yr holl breswylwyr. Mae Casnewydd, Cwmbrân, Caerffili a'r Fenni yn weddol agos i'w gilydd, ac mae rhwydwaith ffyrdd rhagorol a chysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da rhyngddynt, felly bach iawn fyddai'r effaith o ran amseroedd teithio hwy ar y rhan fwyaf o'r preswylwyr.

Yn wahanol i dreialon, cynhelir y gwrandawiadau cyntaf yn y llys lleol yn gyffredinol. Ar gyfer yr achosion hyn, bydd effaith ar yr amser teithio i bobl sy'n methu â theithio i Lys Ynadon Caerffili ddim mwy. Mae'r rhain wedi'u nodi isod, ar gyfer pobl yng Ngwent lle mai Caerffili yw eu llys ynadon agosaf. Mae'r ffigurau ar gyfer y senario ar ôl cau'r llys yn seiliedig arnynt yn teithio i Lys Ynadon Casnewydd.

<b>Preswylwyr yng Ngwent lle mai Caerffili yw eu llys ynadon agosaf.</b>				
<b>Dull teithio:</b>	<b>Car</b>		<b>Trafnidiaeth Gyhoeddus</b>	
	<b>% o'r cyfanswm</b>	<b>Cyn cau</b>	<b>Ar ôl cau</b>	<b>Cyn cau</b>
Y boblogaeth o fewn 30 munud	86%	13%	37%	1%
Y boblogaeth sy'n byw rhwng 30 a 60 munud i ffwrdd	14%	87%	41%	20%
Y boblogaeth sy'n byw rhwng 60 a 90 munud i ffwrdd	0%	0%	15%	55%
Y boblogaeth sy'n byw rhwng 90 a 120 munud i ffwrdd	0%	0%	5%	22%
Y boblogaeth sy'n byw dros 120 munud i ffwrdd	0%	0%	1%	2%

Mae'r cynnydd hwn mewn amseroedd teithio ond yn berthnasol ar gyfer rhai mathau o wrandawiadau, a dim ond i rywfaint o'r boblogaeth yng Ngwent (y rhai sy'n agos i Gaerffili). Ni restrwyd gwaith yn Llys Ynadon y Fenni ers agor Llys Ynadon Casnewydd. Felly, nid ydym yn disgwyl unrhyw effaith o ran amseroedd teithio o ganlyniad i gau'r llys.

© Hawlfraint y Goron 2015  
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau eraill o'r adroddiad hwn ar gael ar gais o Uned Gefnogi Cymru, 2<sup>il</sup> Lawr, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, 2il Lawr, Llys Ynadon Caerdydd a'r Fro, Caerdydd, CF24 0RZ